



Cylchlythyr

Hydref 2019

Annwyl Aelod Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd...



Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys adborth ar rai o'r pynciau yr ymgynghorwyd arnyn nhw yn ystod Arolygon Paneli **Gaeaf** a **Gwanwyn** 2019, yn crynhoi 'yr hyn ddwedoch chi wrthon ni' a 'yr hyn wnaethon ni'. Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth!



Yr hyn ddwedoch chi wrthon ni...

... Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Tŷ Tredegar

Roeddem am gael gwell dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ein cymunedau a sut mae pobl yn defnyddio Tŷ Tredegar neu beidio. Dywedoch yn bennaf ei fod yn drysor sy'n cael ei gadw'n dda a'ch bod yn cydnabod ei berthnasedd hanesyddol i Gasnewydd a'r ardaloedd ehangach, gan wybod hefyd ei fod yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rydych yn teimlo mewn ambell achos bod y gost yn rhwystr i ymweld, ac efallai mai Tir y Parc yw'r prif ddarn y mae pobl leol yn ymweld ag ef yn rheolaidd. Fe wnaethoch ein hannog i weithio gyda mwy o grwpiau yng Nghasnewydd ac i hysbysebu mwy yn y ddinas.

Yr hyn wnaethon ni...

... Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Tŷ Tredegar

Rydym wedi treialu gwahanol gynigion mynediad fel talebau Prynwch Un a Chewch Un Am Ddim, wedi cynyddu nifer ein dyddiau mynediad am ddim ac wedi cynyddu gwybodaeth ar y safle yn egluro i le mae'r taliadau parcio ceir a'r incwm mynediad yn mynd - i ofalu am yr eiddo.

Rydym wedi dechrau tyfu ein partneriaethau lleol gan weithio gyda Chyswllt Cymunedol Dyffryn, Mind Casnewydd, Prosiect Gwastadeddau Byw a Threftadaeth Ein Siartwyr, gyda llawer mwy ar fynd. Rydym wedi cynyddu ein marchnata lleol gan gynnwys posteri mewn gorsafoedd trên ac arosfannau bysiau a chyflwyno mwy o ddatganiadau'r wasg i'r Argus.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Mae llawer o ddefnydd o ran eich adborth yn dal i fod gennym, ac rydym yn ddiolchgar iawn amdano.

Yr hyn ddwedoch chi wrthon ni...

... Mannau Gwyrdd a Diogel

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn dangos bod 40% o bobl yn ymweld â'u man gwyrdd lleol fwy nag unwaith yr wythnos, tra nad oedd 6% erioed wedi ymweld. Y prif reswm yr ymwelodd pobl â'r man gwyrdd oedd cerdded (47%) tra bod y rhesymau cyffredin dros beidio ag ymweld yn cynnwys; materion hygrychedd, diogelwch, diffyg cyfleusterau a thaliadau parcio. Roedd consensws cryf ar yr hyn sy'n gwneud man gwyrdd gwych, gydag 80% o bobl yn dweud coed, 70% yn dweud meinciau, 68% yn dweud plannu ar gyfer bywyd gwyllt a 50% yn nodi lleoedd i chwarae.

Dwedodd 92% o bobl fod defnyddio eu man gwyrdd lleol yn gwneud iddynt deimlo'n iachach. Dwedodd dros 60% o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n weddol ddiogel yn eu parc lleol. Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer gwneud lleoedd yn fwy diogel roedd mwy o heddlu, goleuadau gwell a wardeiniaid parc.

Roedd gan dros 60% o bobl ddiddordeb mewn lle i brynu planhigion a chompost, roedd gan 53% ddiddordeb mewn blodau gwyllt am ddim ac roedd gan 45% ddiddordeb mewn gwybodaeth ar sut i blannu ar gyfer bywyd gwyllt a pheillwyr.

Yr hyn wnaethon ni...

... Mannau Gwyrdd a Diogel

[Mannau Gwyrdd a Diogel](#) yw un o'r ymyriadau a amlinellir yng [Nghynllun Llesiant Casnewydd](#). Ei nod yw gwella llesiant pobl trwy gysylltu pobl â natur, gwella mannau gwyrdd a'u gwneud yn fwy hygrych.



Mae'r [Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel \(Fideo\)](#) yn grŵp o bartneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn helpu i gyflawni hyn trwy weithio ar y cyd. Mae'r ymatebion a roddir yn yr arolwg hwn yn helpu i adeiladu darlun o sut mae mannau gwyrdd yng Nghasnewydd yn cael eu canfod a'u defnyddio, a sut y gallwn gyfarwyddo ein gweithredoedd i'w gwella.

Yr hyn ddwedoch chi wrthon ni...

... Diogelwch yng Nghasnewydd

Roedd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg diwethaf (Gorffennaf 2019) yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor yn delio'n llwyddiannus gyda throsedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal (37%) o'i gymharu â 36% yn anghytuno. Mae hyn yn welliant bychan ar Ionawr 2019 (36.4% yn cytuno).

Roedd aelodau'r panel hefyd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol waeth pa adeg o'r dydd oedd hi (gostyngiad bach o'i gymharu â mis Ionawr 2019). Yng nghanol y ddinas roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (64%), nag yn y nos (29%). O ran barn am yr heddlu yn eu hardaloedd lleol, roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda'r datganiadau, gan amrywio o ychydig o dan 77% (trin â pharch) i dros 43% (delio â phethau sy'n bwysig).

Yr hyn wnaethon ni...

... Diogelwch yng Nghasnewydd

Bydd eich adborth yn parhau i gael ei ddefnyddio fel mesur o ddeall canfyddiad y cyhoedd am ddiogelwch yng Nghasnewydd. Defnyddir y wybodaeth a gesglir i gefnogi [Ymyrraeth Cymunedau Gwydn Cryf](#) fel yr amlinellir yng [Nghynllun Llesiant Casnewydd 2018-23](#) a gwaith [Casnewydd Ddiogelach](#).

Mae'r canlyniadau hyn yn parhau i ategu'r rhai a gasglwyd trwy Arolwg Eich Llais, sy'n cael ei gynnal gan Heddlu Gwent a ffynonellau eraill o ddata ar ganfyddiad y cyhoedd.

Gellir gweld manylion mwy penodol ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymunedau Gwydn Cryf a'r pedwar Ymyrraeth arall ar [wefan Casnewydd yn Un](#).

Yr hyn ddwedoch chi wrthon ni...

... Eich Canfyddiad o Gasnewydd

Mae eich adborth yn dangos bod canfyddiad y cyhoedd am Gasnewydd ym mis Gorffennaf 2019 yn amrywio o'i gymharu â'r llynedd, gyda chanlyniadau'n gwella o'u cymharu â rhai 5 mlynedd yn ôl (Ebrill 2014).

Mae nifer y bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw wedi cynyddu ychydig ers 2018 (i 54.9% o 54.4%) ond mae'n uwch na 2014 (46.9%).

Mae nifer y bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw wedi gostwng ers 2018 (i 41.7% o 47.5%), ac ond ychydig yn uwch na 2014 (41.6%).

Mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn falch o ddod o Gasnewydd wedi cynyddu ers 2018 (i 40.3% o 36.7%), tra ei fod yn uwch na 2014 (37%).

Yr hyn wnaethon ni...

... Eich Canfyddiad o Gasnewydd

Mae [Cynnig Casnewydd](#) yn un o'r Ymyriadau a amlinellir yng [Nghynllun Llesiant Casnewydd 2018-23](#).

Mae gwaith wedi parhau ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn y cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gobeithio y bydd y rhain yn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r ddinas a'i gwneud yn lle mwy apelgar i fusnesau ac ymwelwyr.

Gellir defnyddio data canfyddiad a gesglir trwy'r panel a ffynonellau barn gyhoeddus eraill i farnu a ydym yn symud tuag at ein nod o wneud Casnewydd yn ddinas y mae pobl eisiau byw ynddi, gweithio ynddi, ymweld â hi a buddsoddi ynddi.

Gellir gweld y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-19 yn [Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant 2018-2019](#), gyda diweddariadau yn cael eu cyhoeddi bob chwarter trwy'r [dashfyrdau perfformiad](#).

Yr hyn ddwedoch chi wrthon ni...

... Gweithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru

Nododd eich adborth fod 45% o bobl yn gwybod beth yw eu 'dyletswydd gofal gwastraff' fel deiliad tŷ ac yn deall eu cyfrifoldebau. Tra bod 22% o bobl yn gallu esbonio sut y maent yn dilyn eu 'dyletswydd gofal gwastraff' ynghylch gwastraff cartref.

O ran cael dirwy neu erlyniad os caiff gwastraff tipio anghyfreithlon ei olrhain yn ôl i ddeiliad y tŷ, roedd 64% o bobl yn gwybod y gallai deiliad y tŷ a'r tramgwyddwr tipio anghyfreithlon gdderbyn dirwy.

Yn olaf, roedd 77% o bobl yn gwybod y dylid cysylltu a'u hawdurdod lleol i sôn am dipio anghyfreithlon pe byddent yn dod ar draws bagiau duon o wastraff.

Yr hyn wnaethon ni...

... Gweithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru

Mae'r arolwg hwn wedi bod o gymorth inni nodi bod angen i'n Tîm Gweithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru wneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch eu 'Dyletswydd Gofal Gwastraff Aelwyd' ac mae wedi cynnig mewnwelediadau defnyddiol ar y dulliau gorau i'w cymryd.



Aethom ymlaen i ddatblygu ymgyrch o'r enw 'Eich Dyletswydd yw Gofalu' (#EichDyletswyddYwGofalu) sy'n cynnwys:

- gwefan ymgyrch addysgiadol
- ymgysylltu â hysbysebu radio
- fideo ymgyrch gweithredu byw

Rydym wedi cyflwyno'r ymgyrch hon gan ddefnyddio ystod eang o dechnegau hysbysebu digidol ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn mannau eraill ar-lein.

Ewch i wefan yr ymgyrch (www.flytippingactionwales.org/en/its-your-duty-to-care) i gael mwy o wybodaeth.

Diolch!!!

Diolch o galon i bawb a gwblhaodd Arolygon y Gaeaf a'r Gwanwyn, rydym wir yn gwerthfawrogi'ch adborth. Dyma oedd y cyfraddau ymateb: Gaeaf (37.99%, 272 ymateb); a Gwanwyn (35.47%, 254 ymateb).

Cysylltwch â Ni

Ebost: one.newport@newport.gov.uk neu Ffoniwch: (01633) 656 656

Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter [@OneNewport](https://twitter.com/OneNewport).